



↓ | Prospectws



↘ Cyflwyniad gan y Pennaeth



Annwyl Fyfyrywyr,

Mae'n bleser gennyf eich croesawu i ddod yn ôl ym mis Medi i barhau â'ch astudiaethau yn y Chweched Dosbarth yn Ysgol Llanhari. Mae'r chweched dosbarth yn garreg filltir bwysig ar y daith i fywyd fel oedolyn ac yma yn Llanhari gallwn gynnig y gorau o ddau fyd i chi; amgylchedd gyfarwydd lle rydych yn cael eich parchu, ble mae strwythurau cadarn yn eu lle i'ch cefnogi ond gyda chyfleoedd newydd cyffrous sy'n dod gyda bod yn fyfyrwr yn y chweched dosbarth! Rydych ar fin cychwyn ar lwybr dysgu a fydd yn agor drysau i chi i fywyd llawn, hapus a llewyrchus.

Rydym yn falch iawn o'n chweched dosbarth yn Llanhari a llwyddiannau ardderchog ein myfyrwyr. Cewch gyfle i ddewis o ystod eang o bynciau AS, Safon Uwch a BTEC a byddwch yn astudio'r Fagloriaeth Gymreig hefyd. Er mwyn sicrhau cwricwlwm eang a chytbwys, cynigwn rai pynciau ar y cyd ag ysgolion cyfrwng Cymraeg cyfagos gyda rhai'n cael eu dysgu ar safle arall. Mae hanes llwyddiannus i'r partneriaethau hyn. Bydd manylion am y cyrsiau i gyd yn y llyfryn pynciau, dewiswch yn ddoeth a gofynnwch am gymorth wrth i chi wneud eich penderfyniadau.

Bydd pob pwnc yn cael ei ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg gan athrawon profiadol a brwdfrydig sy'n eich adnabod yn dda iawn erbyn hyn! Bydd maint grwpiau a pherthnasau da rhwng myfyrwyr ac athrawon yn sicrhau dysgu rhyngweithiol effeithiol ac hefyd digon o sylw i anghenion myfyrwyr unigol er mwyn sicrhau bod pawb yn cyrraedd eu potensial. Bydd parhau â'ch astudiaethau yn Chweched Llanhari yn sicrhau bod eich dwyieithrwydd yn cael ei ddatblygu ymhellach ac yn ehangu'ch cyfleoedd yn y gweithle neu addysg uwch yn y dyfodol. Yn y chweched, cewch brofi perthynas fwy aeddfed gyda'ch athrawon a chewch bob cyfle i dyfu'n academiaidd ac fel unigolyn.

Mae bod yn fyfyrwr chweched dosbarth yn ffrind ac fe fyddwch yn ennyn parch y disgyblion iau; cewch gyfleoedd gwych i ddatblygu eich sgiliau arwain drwy gydweithio â'r disgyblion iau. Gobeithiwn yn fawr y byddwch yn manteisio ar bob cyfle i ddatblygu'r cyswllt yma, gan siarad Cymraeg gyda'r disgyblion iau a'u hannog drwy gyfrwng y Gymraeg; chi yw eu modelau rôl ac felly rydych yn rhan hanfodol o'n hysgol.

Cofiwch y bydd cyflogwyr y dyfodol yn chwilio am unigolion sydd â sgiliau rhyngpersonol cryf ac amrywiaeth o brofiadau yn ogystal â chymwysterau academiaidd ar gyfer llwyddo yng ngweithlu'r unfed ganrif ar hugain.

Edrychaf ymlaen yn fawr at eich croesawu atom yn Ysgol Llanhari ym mis Medi i ymuno â'n Chweched Dosbarth. Oddi yma cewch gamu ymlaen yn llwyddiannus i'r ris nesaf ar eich llwybr gyrfa, boed yn waith, yn goleg neu'n brifysgol.

Yn gywir,

Rhian Phillips, Pennaeth.

↘ Cyflwyniad gan y Prif Swyddogion

Annwyl Ddisgyblion blwyddyn 11

Mae chweched Llanhari yn fach, ac felly mae'n cynnig amrywiaeth o gyfleon ychwanegol. Yma, mae'r athrawon yn nabod chi'n well nag all unrhyw staff mewn ysgol neu goleg chweched arall a fydd yn gorfod dod i'ch adnabod chi. Mae'r berthynas hon gydag athrawon Ysgol Llanhari yn ddefnyddiol wrth feddwl am bwy fyddai'n ysgrifennu'ch geirada ar gyfer cais Prifysgol neu Goleg pellach a phwy all eich cymell i ymdrechu i'r eithaf yn eich lefelau A. Rydych chi wedi dod i 'nabod yr athrawon ac mae'r athrawon wedi dod i 'ch 'nabod chi, dros eich holl gyfnod ysgol. Mae hwn hefyd yn gallu gwneud dysgu'n haws. Mewn dosbarthiadau bach, rydych chi'n debygol o fod yn fwy cyfforddus yn gofyn cwestiynau am yr hyn nad ydych yn deall.

Mae chweched Llanhari yn gallu helpu cryfhau eich datganiad personol UCAS neu CV, gan gynnig cyfleon arwain a safleoedd o gyfrifoldeb efallai na fyddai ar gael mor hawdd i chi rhywle arall. Mewn ysgol fwy, mae'n debygol y byddai'n rhaid rhannu cyfleoedd megis cynrychioli disgyblion ar gyngor yr ysgol neu arwain cystadlaethau'r Eisteddfod. Mae Teulu Llanhari yn gymuned bositif a fydd yn eich hybu i gymell eich gilydd ac i wthio chi i'ch llawn botensial.

Hwyl!

Beca H and Beca E

↘ Polisi Mynediad y Chweched

Mae'r ysgol yn fodlon ystyried cais unrhyw fyfyrwr ar gyfer addysg ôl 16 cyn belled â bod ganddynt gymwysterau blaenorol addas ac agwedd bositif tuag at eu gwaith ysgol. Bydd yr ysgol yn rhoi cyngor unigol i bob myfyrwr ynglŷn â rhaglen addas o gyrsiau yn seiliedig ar yr egwyddorion hyn:

Cyfuniadau posib B112

- 2 Uwch Gyfrannol + Tystysgrif Sgiliau L3
- 3 Uwch Gyfrannol + Tystysgrif Sgiliau L3 (cyngor unigol)
- 4 Uwch Gyfrannol + dewis dilyn Tystysgrif Sgiliau L3

Cyfuniadau posib B113

Mae mynediad i B113 yn dibynnu ar basio UG [A*-E] (oni bai bod ystyriaethau arbennig unigol) a pharhau ag o leiaf 2 UG at A2.

↘ Disgwyliadau Uchel

Disgwyliwn safonau o'r radd flaenaf gan ein myfyrwyr. Rhaid iddynt gofrestru'n brydlon, mynychu pob un wers a chyflwyno'r gwaith ar amser. Mae disgwyl i'w gwisg ysgol fod yn raenus gan eu bod yn gosod esiampyl i'r disgyblion iau. Wrth ddychwelyd i'r Chweched Dosbarth rhaid i'r myfyrwyr barchu a chydymffurfio â'r rheolau ysgol yn ddiffael. Disgwylir i fyfyrwyr y Chweched Dosbarth fod yn esiampyl dda i'r disgyblion iau a chaiff ymddygiad y Chweched Dosbarth gryn ddylanwad ar ethos yr ysgol gyfan. Maent yn fodolau rôl i ddisgyblion iau'r ysgol ac ystyriwn bod hybu Cymreictod trwy osod esiampyl yn nodweddiadol.

↘ Gofal Bugeiliol

Yr Arweinydd Safonau Cyrhaeddiad a'r tiwtoriaid sy'n bennaf gyfrifol am les pob unigolyn yn y chweched dosbarth. Rhennir myfyrwyr yn grwpiau tiwtorial heb wahaniaethu ar sail cyrsiau. Disgwylir i bob myfyriwr fynychu cyfnod cofrestru boreol. Ystyrir y cyfnod cofrestru'n gyfnod pwysig ar gyfer datblygu sgiliau unigol.


↘ Astudio'n Annibynnol

Y gwahaniaeth mwyaf trawiadol rhwng amserlen Blwyddyn 11 ac amserlen 12, ar wahân bod yna lai o bynciau, yw'r ffaith bod myfyriwr Blwyddyn 12, am y tro cyntaf, yn cael amser digyswllt pan nad ydynt wedi ymrwmo i wersi. Mae'r amser hwn yn fanteisiol, ac yn gyfle rhy dda i'w gollu. Caiff myfyrwyr eu hannog i reoli eu hamser yn effeithiol ac i ddefnyddio cyfnodau digyswllt ar gyfer eu hastudiaethau annibynnol. Mae'r gallu i astudio'n annibynnol yn angenrheidiol ar gyfer llwyddiant ar gwrs Safon Uwch, ac yn sgil allweddol i'w paratoi ar gyfer Addysg Uwch a Gydol Oes.

Man cychwyn yn unig yw gwersi yn y Chweched Dosbarth. Ni all myfyrwyr gyflawni eu potensial drwy ddibynnu yn gyfan gwbl ar y gwaith a wneir yn ystod amser gwersi yn unig. Caiff myfyrwyr arweiniad gan eu hathrawon pwnc, ac wedyn disgwylir iddynt ymgymryd â gwaith pellach yn annibynnol er mwyn atgyfnerthu'r hyn y maent eisoes wedi'i ddysgu, neu ddod o hyd i wybodaeth newydd, atodol sy'n cyfoethogi gwaith y wers. Nid cyfnodau gorffwys yw'r amser digyswllt!

Mae dysgu rheoli amser felly'n bwysig iawn yn y chweched! Mae caniatad i ddisgyblion adael safle'r ysgol i fynd i bentref Llanhari yn ystod gwersi rhydd ond nid yn ystod yr egwyl na'r awr ginio. Rhaid i'r disgyblion lofnodi i mewn ac allan wrth wneud hyn am resymau iechyd a diogelwch. Disgwylir i unrhyw ddisgybl sy'n dod â char i'r ysgol i gofnodi rhif y car gyda Rheolwr y Safle a chadw at reolau iechyd a diogelwch.

"Mae Ysgol Llanhari yn darparu cyfleoedd symbyllog a diddorol i'w disgyblion i sicrhau eu bod yn datblygu'n ddinasyddion gwaraidd a gwybodus"
- Estyn 2017





"Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr y tu allan i'r ystafell ddosbarth sydd yn ategu profiadau'r disgyblion"
- Estyn 2017

↘ Cyfleusterau ac Adnoddau

Mae cyfleusterau astudio penodol ar gael i fyfyrwyr y Chweched Dosbarth, ac yn ystod eu horiau digyswllt, anogir hwy i wneud defnydd o ystafell waith y chweched neu ddefnyddio cyfleusterau TGCh yr ysgol. Mae ystafell astudio ar gael ar gyfer y Chweched Dosbarth, wedi'i chyfarparu gyda chyfrifiaduron rhwydwaith, yn benodol ar gyfer ymgymryd ag ymchwil a gwaith annibynnol, gan ddarparu mynediad at rwydwaith yr ysgol gyfan.

Mae Lolfa'r Chweched yn ganolfan ar gyfer ymlacio a chymdeithasu yn ystod gwersi penodol. Disgwylir i ddefnyddwyr y Lolfa ei pharchu ar bob achlysur. Bydd y caffi sydd yn ffreutur yr ysgol ar agor ar amseroedd penodol yn ystod y dydd i ddisgyblion y chweched dosbarth yn unig yn ogystal â chyfnodau egwyl a chinio.

↘ Cyfle i Arwain

Rydym yn rhoi pwyslais yn Llanhari ar ddatblygu'r unigolyn cyflawn a'i baratoi ar gyfer bod yn ddinesydd cyfrifol. Yn ychwanegol i'r cyfleon allgyrsiol ac y tu hwnt i'r dosbarth a drefnir gan yr athrawon, ceir cyfleon niferus i'r disgyblion arddangos ac ymarfer eu sgiliau arwain.

Mae'r cyfleon a ddaw yn sgil her cymunedol y Fagloriaeth yn ategu yr holl gyfleon hyn hefyd. Anogwn y disgyblion i gymryd rhan lawn ymhob agwedd o fywyd yr ysgol yn ystod eu cyfnod yn y Chweched gan ddatblygu sgiliau arwain a sgiliau cymdeithasol yn ogystal â datblygiad academaidd e.e.

- Cefnogaeth fugeiliol – e.e. mentora disgyblion
- Arweinwyr Llys Eisteddfod
- Arweinwyr Chwaraeon
- Cyflwyniadau mewn nosweithiau agored
- Swogs Nosweithiau Rhieni
- Trefnu gweithgareddau elusennol
- Swogs Llangrannog/ Cwrs Preswyl Caerdydd
- Fforwm Ieuenctid
- Siarad Cyhoeddus Saesneg a Chymraeg
- Arwain y cyngor ysgol
- Hyfforddi disgyblion ar gyfer Eisteddfod Ysgol
- Cynnal gweithgareddau i blant iau yr adran gynradd
- Trefnu digwyddiadau ysgol gyfan

➔ Y Cam Nesaf

Mae gennym raglen UCAS a gynllunir yn ofalus. Daw nifer o siaradwyr gwadd o'r Prifysgolion atom ynghyd â chyn-ddisgyblion i rannu eu profiadau a mynychwn ffair UCAS yn NIAC UWIC. Yn ogystal â hyn, trefnwn ffug gyfweiliadau i'n disgyblion ym Mlwyddyn 13, a chyfweiliadau arddull Oxbridge i'r disgyblion hynny sy'n ymgeisio am y prifysgolion o'r radd flaenaf. Yn ogystal mae nifer o ddisgyblion bob blwyddyn yn rhan o'r Rhwydwaith Seren. Rydym yn hynod falch bod canran uchel iawn o'n myfyrwyr yn mynd ymlaen i fynychu cyrsiau Prifysgol naill ai yn lleol yn Ne Cymru neu yn mynd i brifysgolion o'r radd flaenaf gan gynnwys prifysgolion y Russell Group, Rhydychen a Chaergrawnt.

➔ Pam Chweched Llanhari?

Manteision astudio yn chweched Llanhari yn ôl y disgyblion?

- Gwersi safonol
- Perthynas agos rhwng athrawon â disgyblion
- Cyngor academaidd da ar ddewis prifysgol ayyb
- Cyfleon i arwain
- Cymorth parod gan staff
- Trin yn hafal
- Mwy o ryddid!
- Dosbarthiadau bach felly digon o sylw unigol
- Mwynhau ffocysu ar lai o bynciau!
- Ansawdd da i'r offer TGCh
- Addysgu o safon



 llanhari.com

 01443 237 824

 @YsgolLlanhari